COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MAWRTH, 15 MAWRTH 2022, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd LM Walters – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CA Green | JE Lewis | MJ Kearn | RM Granville |
| AJ Williams | P Davies | TH Beedle | A Hussain |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PA Davies

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Thomas | Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Sarah-Jane Byrne | Rheolwr Awdurdod Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Nigel Smith | Rheolwr Cyllid |
| Joan Davies | Dirprwy Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Rachel Keepins | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Derwyn Owen | WAO |

Aelod Lleyg:

Mrs J Williams

303. DATGAN BUDDIANT

Dim

304. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod 28/01/22 yn gywir yn amodol ar newid y canlynol:

"Cwestiynai'r Aelod Lleyg a oedd y rhestr o brosiectau yn y rhaglen Trawsnewid Digidol ychydig yn brin yn nhermau newid diwylliannol a choleddu a gwella'r diwylliant." I'r canlynol:

"Gofynnodd yr Aelod Lleyg a oedd newid diwylliannol wedi'i gynnwys yn y rhaglen Trawsnewid Digidol yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru, gan fod y "rhaglen Trawsnewid Digidol a dderbyniwyd ychydig yn brin o fanylion."

305. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r aelodau am Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio, a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar y camau a gymerwyd o 9 Medi 2021 ynghylch cwynion. Gofynnodd y pwyllgor am ddiweddariad ynghylch y 10 achos a oedd wedi'u rhestru'n weddill, ond nid oedd yr adroddiad a oedd ar ddod y trafod hynny.

Esboniodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y ddogfen hon yn cynnwys gwall teipio yn Atodiad 3, ac y byddai'r tabl ac ynddo'r ffigurau cywir yn cael ei anfon at yr holl Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ynghylch aelodau lleyg.

Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod yn rhaid i draean o aelodaeth y pwyllgor fod yn Aelodau Lleyg. Roedd yr hysbysebion ar gyfer y swyddi hyn wedi'u cyhoeddi a'r broses recriwtio wedi'i chwblhau'n ddiweddar, ac roedd pedwar Aelod Lleyg wedi'u penodi. Mae gan yr Aelodau Lleyg ystod o brofiadau gan gynnwys Llywodraeth Leol, profiad o sector cyhoeddus arall, profiad archwilio ac ym maes bancio,

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r Cofnod Gweithredu ac yn rhoi sylwadau arno, fel bo'n briodol.

306. DIWEDDARIAD AM YR ADOLYGIAD O'R BROSES PRYDERON A CHWYNION

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu proses Pryderon a Chwynion yr Awdurdod.
Ar ôl i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad ar yr uchod, dywedodd fod adborth y Pwyllgor yn awgrymu yr hoffai i'r Awdurdod fabwysiadu dull mwy cyfannol o edrych ar gwynion, ac archwilio a oedd opsiynau digidol ar gyfer rheoli cwynion.

Sefydlodd y Pwyllgor weithgor, a oedd yn cynnwys y Cynghorydd Lyn Walters, y Cynghorydd Cheryl Green a'r Cynghorydd Amanda Williams. Cynhaliodd y gweithgor ymchwil a siarad ag awdurdodau lleol eraill.

Dywedodd fod y gweithgor o aelodau etholedig wedi cwrdd â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Polisi AD a Chorfforaethol, ar 26 Ionawr 2022, i adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau a'u safbwyntiau. Yn fuan wedyn cafodd y canfyddiadau hyn eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a chytunwyd wedyn i gyfeirio'r mater er ystyriaeth bellach gan y Bwrdd Trawsnewid Digidol.

Cyn eu cyflwyno gerbron y Bwrdd Trawsnewid Digidol, mae gwaith cychwynnol wedi cael ei wneud i archwilio'r cyfleoedd yn gysylltiedig ag ymgorffori'r cam ffurfiol cyfredol ar gyfer pryderon a chwynion o fewn y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Cwsmeriaid i gofnodi pob pryder a chwyn anffurfiol. Roedd gwaith bellach yn mynd rhagddo i ystyried datblygu'r system fel bo modd cadw a phrosesu'r holl bryderon a chwynion o fewn y system CRM, yn hytrach na'u cofnodi ar daenlen Excel ar wahân. Y nod oedd gwella'r trefniadau adrodd presennol ar draws yr holl sefydliad. Mae copi o'r adroddiad perfformiad cwynion a ddarperir bob chwarter i Awdurdod Safonau Cwynion Cymru hefyd yn cael ei adolygu i sicrhau bod modd casglu'r data cywir o fewn y system CRM i symleiddio a gwella'r broses adrodd bresennol.

Fel rhan o waith y gweithgor, soniodd Aelod ei fod am edrych ar achosion o ganmol hefyd, gan fod y rhain yn rhan allweddol o brofiad y cwsmer. Mae'n bosibl bod rhai gwasanaethau lle ceir nifer fwy o gwynion nag eraill hefyd yn cynnwys mwy o ganmoliaeth, felly byddai cofnodi hyn hefyd yn creu darlun llawnach. Cytunai'r Prif

Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod hon yn agwedd bwysig ar y broses ac y byddai'n cael ei chynnwys yn y darn hwn o waith.

Gofynnodd Aelod a oedd y system yn cynnwys cwynion a wneir i ysgolion. Dywedwyd nad oedd y cwynion hynny wedi'u cynnwys, gan fod cwynion i ysgolion yn cael eu monitro ar wahân i'r cwynion a wneir yn erbyn yr Awdurdod Lleol.

Gofynnodd Aelod Lleyg a oeddem yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch, a hefyd beth oedd Cynghorau eraill yn ei wneud o ran cofnodi cwynion yn erbyn ysgolion. Dywedodd Y Cadeirydd ei bod wedi siarad â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y bore yma, a'i fod wedi cadarnhau mai cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru oedd y dylai Ysgolion ymdrin â'r cwynion eu hunain.

Trafododd yr Aelodau y weithdrefn gwynion ar gyfer ysgolion, a gofynnwyd a ellid darparu gwybodaeth yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ynghylch sut roedd cwynion yn erbyn ysgolion yn cael eu cofnodi, a chael sicrwydd eu bod yn cael eu cofnodi'n effeithiol.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

307. <u>CYNLLUN ARBED CAERAU</u>

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol adroddiad a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am y gwaith a wnaed gan yr tîm Archwilio Mewnol yn gysylltiedig â chynllun Arbed, yn unol â chais y Pwyllgor hwn ar 28 Ionawr 2022.

Esboniodd fod tîm Archwilio Mewnol y Cyngor, ar gais y cyn Brif Weithredwr yn 2018, wedi cynnal adolygiad archwilio i ganfod i ba raddau y cadwyd at bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, neu beidio, mewn perthynas â'r cynllun a gyllidwyd gan Arbed yng Nghaerau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2012 hyd fis Ebrill 2013. Mynegwyd pryderon penodol gan y Prif Weithredwr ar y pryd ynghylch yr hyn a ymddangosai fel diffyg trywydd archwilio, a gofynnwyd a oedd unrhyw amgylchiadau i esbonio hyn.

Er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw dystiolaeth fod y problemau hyn yn bodoli ar raddfa ehangach, ychwanegodd fod y tîm Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad pellach o agweddau caffael a llywodraethu 10 o gynlluniau a gyllidwyd yn allanol o 2018 ymlaen. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2021. Rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd rhesymol, ac ni wnaed ond pedwar mân argymhelliad. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys. O'r sampl a ddetholwyd ac a adolygwyd, canfuwyd nad oedd y pryderon a oedd yn codi o gynllun blaenorol a gyllidwyd gan Arbed wedi'u hailadrodd. Roedd mwy o'r cefndir wedi'i gynnwys yn adran 3 yr adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y ddogfen a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor ar 26 Ionawr 2022 wedi'i chynnwys yn Atodiad A, ac yn amlinellu canfyddiadau a chasgliadau'r gwaith a gyflawnwyd gan y tîm Archwilio Mewnol yn gysylltiedig â chynllun Arbed. Nodai'r adroddiad amryw o bryderon o bwys yn gysylltiedig ag agweddau ar drefniadau llywodraethu, penderfynu, caffael, monitro a rheolaeth Cynllun Arbed, ac ynghylch ymddygiad a rôl Cynghorydd fel Cyfarwyddwr Green Renewable Wales Ltd. Roedd yr adroddiad felly'n cynnwys argymhellion, ac roedd y Cyngor wedi gweithredu pob un ohonynt. Ychwanegodd fod yr adroddiad wedi cael ei rannu â'r heddlu ym mis Awst 2019, ond mai'r penderfyniad oedd nad oedd angen iddynt weithredu yn ei gylch. Yn ddiweddar, roedd uwch swyddog ymchwilio o fewn yr Uned Troseddau Economaidd wedi adolygu'r adroddiad archwilio mewnol a'r dogfennau unwaith eto, ac wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi'r asesiad a gynhaliwyd yn 2019. Nid

oes unrhyw newid wedi bod i'r amgylchiadau, ac nid oes unrhyw dystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg a fyddai'n effeithio ar y penderfyniad hwnnw.

Amlinellodd Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y materion ehangach o ran llywodraethu, gwneud penderfyniadau, a chaffael ac roedd y rhain yn destun archwiliad pellach fel rhan o gynllun archwilio 2020/21. Cyfeiriai'r adroddiad hwn at y 10 cynllun a adolygwyd, a'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn sgil y gwaith. O'r sampl a ddetholwyd ac a adolygwyd, canfuwyd nad oedd y pryderon a oedd yn codi o gynllun blaenorol a gyllidwyd gan Arbed wedi'u hailadrodd.

Roedd dogfennau ar gael i gefnogi cydymffurfiaeth â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor, a'r angen i gynnwys y Gwasanaeth Caffael Corfforaethol wrth ddefnyddio contractwyr. Roedd tystiolaeth hefyd o fonitro cyflenwyr, adrodd a llywodraethu ar draws yr holl brosiectau. Rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd rhesymol, hynny yw fod mesurau rheoli allweddol yn bodoli ond y gallai'r defnydd o'r mesurau hynny fod yn anghyson. O ganlyniad i hynny, ni chafwyd ond pedwar mân argymhelliad. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2021.

Ychwanegodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod Atodiad B yn rhoi crynodeb o'r 11 o archwiliadau a gynhaliwyd o fewn yr un maes gwasanaeth a weinyddodd gynllun Arbed. Roedd a wnelo'r archwiliadau hynny naill ai â chynlluniau cyfalaf, cynlluniau a gyllidwyd drwy grant, rheoli prosiectau ac/neu gaffael, yn ogystal â'r cryfderau a'r gwendidau a nodwyd. Roedd yr archwiliadau hyn wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2011 a Hydref 2021.

Cyfeiriodd hefyd at sylwadau gan Archwilio Cymru, a nodwyd yn yr adroddiad.

Mewn perthynas â 3.1 yn yr adroddiad, sef bod y cyn Brif Weithredwr wedi gofyn am adolygiad, gofynnodd Aelod pam bod hynny wedi digwydd. Roedd hi'n ymwybodol o ohebiaeth rhwng Chris Elmore AS y DU a'r Arweinydd am achosion o oedi yn gysylltiedig â hyn, bron 12 mis cyn i Swyddogion gynnal ymchwiliadau parhaus, yn ôl pob golwg. A ellid cadarnhau ai dyna oedd wrth wraidd hyn. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol mai'r e-bost a gafodd ei ragflaenydd, cyn iddo ddod i'w swydd, a ysgogodd yr ymchwiliad i rai agweddau ar y cynllun yn gysylltiedig â'r trywydd archwilio a chaffael er enghraifft. Cadarnhaodd nad oedd y tîm Archwilio Mewnol wedi derbyn unrhyw ohebiaeth na chwynion cyn hynny, a'u bod felly heb fod yn ymwybodol o'r cwynion dan sylw.

Aeth Aelod yn ei flaen i holi a ellid rhoi sicrwydd rhesymol fod prosesau ar waith i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol, oherwydd gallai'r Cyngor wynebu risg o hawliadau am ddigolledіad. Eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod Archwiliad wedi cael ei gynnal ar 10 gynllun diweddar, a'u bod wedi cael sicrwydd mai eithriad oedd cynllun ARBED, ac nad oedd y problemau a gafwyd wedi'u hailadrodd na'u gweld yn unrhyw un o'r cynlluniau eraill.

Gofynnodd Aelod pam nad oedd y ddogfen gan yr heddlu, a oedd yn cadarnhau eu bod yn fodlon nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach, wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, oherwydd byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd. Esboniodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol nad oedd y ddogfen honno ond wedi dod i law ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

O ran yr ohebiaeth a anfonwyd at y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, gofynnodd Aelod pam nad oedd yr ohebiaeth honno wedi cael ei hanfon at yr Arweinydd. Eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr ohebiaeth wedi'i hanfon at swyddogion allweddol, gan mai dyna oedd yr arfer cyffredin. Ni fyddai drafftiau fel arfer yn cael eu

hanfon at yr Aelodau, a chan nad oedd y gwaith ond megis dechrau, nid oedd angen gwneud hynny.

Gofynnodd Aelod a ellid cadarnhau a ganfuwyd rhif TAW annilys ai peidio ar gyfer Green Renewable Wales. Eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod hyn yn wir, ond roedd GRW Ltd i bob pwrpas yn goruchwylio ac yn is-gontractio gwaith, felly ni chafodd unrhyw daliad erioed ei wneud i'r Cyngor drwy ddefnyddio'r rhif TAW annilys.

Dywedodd Aelod ei bod hi'n amlwg na ddilynwyd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau, ac mai penderfyniad bwriadol oedd peidio dilyn y rheolau hynny. Gofynnodd a ellid cadarnhau hyn. Cytunodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ei bod hi'n glir na ddilynwyd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau, ond nad oedd yn glir a oedd hynny wedi digwydd o fwriad. Rhannai Aelodau'r Pwyllgor yr un pryderon ynghylch y ffaith na ddilynwyd y broses briodol, ond rhoddwyd sicrwydd iddynt nad oedd y problemau hyn wedi'u gweld cyn hynny, na'u hailadrodd ar ôl hynny.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg a oedd unrhyw syniad o'r cymhelliant a oedd wrth wraidd yr hyn a ddigwyddodd, boed hynny'n fwriado ai peidio, ac a oedd unrhyw wybodaeth ar gael am hyn. Esboniodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y cafodd y Swyddogion fu'n ymwneud â'r cynllun eu holi ynghylch hyn, ac y gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau iddynt ynghylch sut a pham y bu i hyn ddigwydd. Un o'r prif ffactorau a ddaeth i'r amlwg oedd bod angen gwario'r cyllid gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cyfrannu at y cynlluniau hyn o fewn cyfnod byr iawn o amser, ac y gallai hyn fod wedi achosi rhai o'r problemau a gafwyd o ran peidio dilyn y drefn.

Cyfeiriodd Aelod at yr oedi a gafwyd cyn derbyn yr adroddiad gerbron y Pwyllgor, a'r ffaith y bu ond y dim i'r adroddiad beidio â chael ei gyflwyno cyn y tymor swydd newydd. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael gweld adroddiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol, er mwyn sicrhau trefn briodol.

Gofynnodd Aelod a fyddai modd cynnal Archwiliad o'r adran hon bob blwyddyn, neu bob dwy flynedd, ac a fyddai hynny o fewn cwmpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. Esboniodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol mai'r cynllun ar gyfer Archwilio oedd ymdrin â phob rhan o'r Cyngor a phob adran ar draws y Cyngor. Nid oedd modd canolbwyntio ar un maes, gan y byddai hynny'n tynnu sylw ac adnoddau oddi wrth waith i archwilio gweddill y Cyngor yn effeithiol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

- yn nodi'r adroddiad diweddaru hwn ar y gwaith a gyflawnwyd gan y tîm Archwilio Mewnol yn gysylltiedig â chynllun Arbed.
- yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan y tîm Archwilio Mewnol, fod y problemau a nodwyd yng nghynllun Arbed yn ystod 2012/13 heb eu canfod mewn unrhyw waith arall a gyflawnwyd gan y tîm Archwilio Mewnol o fewn y Cyngor o 2011 hyd heddiw.
- yn nodi sylwadau Archwilio Cymru mewn perthynas â chynllun Arbed.

308. BLAENRAGLEN WAITH 2022-23

Cyflwynodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid adroddiad a ofynnai am gymeradwyaeth ar gyfer Blaenraglen Waith arfaethedig 2022-23.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau ystyriaeth briodol o bob agwedd ar ei swyddogaethau craidd, dywedodd fod y Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2022-23 wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

Gofynnwyd i'r Aelodau Pwyllgor gymeradwyo'r amserlen, a chadarnhau'r rhestr o bobl yr hoffent eu gwahodd ar gyfer pob eitem (os oedd yn briodol), a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth neu waith ymchwil ychwanegol.

Cyfeiriodd at yr eitemau a oedd wedi'u hamserlennu ar hyn o bryd ar gyfer y cyfarfod nesaf a oedd wedi'i drefnu ar 9 Mehefin 2022. Roedd yr eitemau wedi'u rhestru yn 4.2 yn yr adroddiad.

Eglurodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid y gallai eitemau agenda ychwanegol gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor, wrth i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym, yn enwedig mewn perthynas â chyfrifoldebau newydd y Pwyllgor yn gysylltiedig â pherfformiad a hunanasesu, a byddai'r rhain yn cael eu hychwanegu at y Flaenraglen Waith yn ôl yr angen.

Dywedodd fod y Flaenraglen Waith yn hyblyg, ac y gallai'r amserlen newid pe bai'r pwyllgor yn dymuno ystyried unrhyw eitemau eraill. Roedd y dyddiadau cyfarfod cyfredol hefyd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor yn y cyfarfod blynyddol a oedd i fod i gael ei gynnal ar 18 Mai 2022.

Soniodd yr Aelod Lleyg fod 4 eitem ar yr agenda a oedd wedi'u hamserlennu ar gyfer cyfarfod y mis hwn, nad oeddent wedi cael eu hystyried. Roedd 2 o'r eitemau, sef yr adroddiad chwarterol Archwilio Mewnol a'r Asesiad Risg Twyll a oedd yn arbennig o bwysig ac a oedd bellach wedi'u cynnwys ar amserlen y misoedd nesaf. Teimlai fod hyn yn rhy hwyr, ac y dylid eu gweld cyn hynny os oedd modd.

Yn sgil cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ganlyniad i'r Ddeddf newydd, dywedodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid y byddai'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol bellach yn adolygu'r Asesiad Risg Twyll ar sail chwarterol a phe bai unrhyw fater o bwys yn codi, y byddai hynny'n cael ei fwydo i'r Asesiad Risg Corfforaethol i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Gwnaeth y Pennaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol sylwadau ar yr Adroddiad Archwilio Mewnol Chwarterol, a dywedodd fod y pwyllgor i fod i ystyried yr adroddiad ar ddiwedd y mis, pan oedd y cyfarfod gwreiddiol i fod i gael ei gynnal. Fodd bynnag, roedd y cyfarfod hwnnw wedi cael ei symud ymlaen i heddiw, a olygai nad oedd digon o amser i baratoi'r adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor. Byddai'r adroddiad cynnydd disgwyliedig yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a fyddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2022-23.

309. <u>EITEMAU BRYS</u>

Dim

Gair gan y Cadeirydd, Cyng Lyn Walters

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022, diolchodd y Cynghorydd Lyn Walters i'r Pwyllgor am y gefnogaeth a gafodd yn ei rôl fel Cadeirydd dros bedai'r o'r pum mlynedd yn nhymor y

Cyngor hwn. Diolchodd i'r holl Aelodau a'r Aelod Lleyg am eu cyfranogiad a'u hymrwymiad i'r Pwyllgor. Gan fod Mrs J Williams yn dod i ddiwedd ei hail dymor fel Aelod Lleyg, diolchodd iddi am ei chyfraniad a'i harbenigedd a'i her iach i'r Pwyllgor. Diolchodd i'r holl Swyddogion a chydweithwyr o Archwilio Cymru am eu cefnogaeth, eu cyngor a'u harweiniad ar hyd y blynyddoedd, ac am sicrhau bod CBSPO yn y sefyllfa orau bosib. Dymunodd y gorau i'r holl Aelodau a oedd yn sefyll fel Cynghorwyr yn yr etholiadau, ac ymddeoliad diogel a hapus i'r rhai nad oeddent yn sefyll.

Daeth y cyfarfod i ben am 4:05